



**TYSTYSGRIF ADDYSG GYFFREDINOL
GENERAL CERTIFICATE OF EDUCATION**

**2009 – 2010
DRAFFT 17.1.08**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A
CHYFATHREBU**

**PAPURAU CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL
CYNLLUNIAU MARCIO ENGHREIFFTIOL**

Cynnwys



Tudalen

Papurau Cwestiynau

IT1	SYSTEMAU GWYBODAETH	5
IT3	Y DEFNYDD O TGCh A'I HEFFAITH	19

Cynlluniau Marcio

IT1	SYSTEMAU GWYBODAETH	22
IT3	Y DEFNYDD O TGCh A'I HEFFAITH	29

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

IT1

SYSTEMAU GWYBODAETH

PAPUR ENGHREIFFTIOL
(2 ¼ awr)

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac yn Adran B.

Dangosir y marciau sydd ar gael am bob cwestiwn neu ran o gwestiwn mewn cromfachau [].
Cynghorir chi i rannu eich amser yn unol â hynny. 80 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael.

Atgoffir chi y bydd yr asesu'n cymryd ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig i ystyriaeth yn yr atebion
i gwestiwn 5 a chwestiwn 8.

(b) Rhowch enghraifft o broblem a allai godi os nad yw gwybodaeth yn:

(i) cyfoes; [1]

.....
.....
.....
.....

(ii) cyflawn; [1]

.....
.....
.....
.....

(iii) manwl gywir. [1]

.....
.....
.....
.....

Defnyddiwch enghreifftiau hollol wahanol ym **mhob** achos.

3. Mae banciau'n defnyddio dulliau *gwireddu* a *dilysu* i leihau camgymeriadau mewnbynnu data yn eu systemau bancio ar-lein.

(a) Diffiniwch y term *gwireddu*. Enwch a disgrifiwch **un** dull gwireddu a ddefnyddir mewn systemau bancio ar-lein. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Diffiniwch y term *dilysu*. Enwch a disgrifiwch **un** dull dilysu a ddefnyddir mewn systemau bancio ar-lein. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

4. Mae cwmni sy'n rhedeg cadwyn fawr o uwchfarchnadoedd yn defnyddio cronfa ddata i storio cofnodion ei gwsmeriaid.

(a) Diffiniwch **bob un** o swyddogaethau canlynol y meddalwedd cronfa ddata a rhowch enghraifft briodol o sut y gellir defnyddio **pob un yn y cyd-destun hwn**:

(i) mewnforio/allforio data; [2]

.....
.....
.....
.....

(ii) ymholi; [2]

.....
.....
.....
.....

(iii) adroddiad. [2]

.....
.....
.....
.....

(b) Nodwch **ddwy** o ofynion y Ddeddf Gwarchod Data y mae'n rhaid i'r uwchfarchnad gydymffurfio â hwy. [2]

.....
.....
.....
.....

6. Mae cregyn systemau arbenigo yn bwysig wrth ddatblygu systemau arbenigo meddygol.

(a) Disgrifiwch **dair** prif ran pob cragen system arbenigo. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Disgrifiwch, gan ddefnyddio enghreifftiau, **ddwy** o fanteision defnyddio system arbenigo mewn meddygaeth. [2]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

7. Mae'r defnydd o systemau TGCh yn y cartref yn cynyddu bob dydd.

(a) Mae'r Rhyngwyneb Cyfrifiadur-Dyn (*HCI*) mewn meddalwedd a ddefnyddir i helpu plant ifanc i ddysgu yn bwysig.

Gan gyfeirio at enghreifftiau priodol, trafodwch **ddau** ffactor y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddylunio rhyngwyneb o'r fath. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Gan ddefnyddio enghraifft addas berthnasol, disgrifiwch un mater iechyd sydd wedi codi o ganlyniad i'r defnydd cynyddol o TGCh yn y cartref. [2]

.....

.....

.....

.....

10. RHAID I CHI GYFEIRIO AT EICH TAENLEN EICH HUN I ATEB Y CWESTIWN CANLYNOL.

(a) Disgrifiwch bwrpas neu swyddogaeth **ddwy** wahanol *fformiwla* a ddefnyddiwyd gennych yn eich taenlen. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Disgrifiwch **un** dull o symleiddio *mewnbynnu data* a grëwyd gennych yn eich taenlen, gan nodi manteision defnyddio technegau o'r fath ar gyfer mewnbynnu data i daenlen. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

- (c) Disgrifiwch **ddau** ddull o *faglu gwallau dilysu* a ddefnyddiwyd gennych yn eich taenlen. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

- (ch) Disgrifiwch bwrpas neu swyddogaeth **dwy broses wahanol** arall a ddefnyddiwyd gennych yn eich taenlen. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Yn eich ateb, peidiwch â disgrifio unrhyw nodwedd a roddwyd gennych yn rhannau (a), (b) neu (c)

**SICRHEWCH EICH BOD CHI’N CYSYLLTU ALLBRINTIAU EICH TAENLEN
WRTH Y PAPUR ARHOLIAD HWN.**

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

IT3

Y DEFNYDD O TGCh A'I HEFFAITH

PAPUR ENGHREIFFTIOL
(2 ½ awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac **un cwestiwn** yn Adran B.

Dangosir y marciau sydd ar gael am bob cwestiwn neu ran o gwestiwn mewn cromfachau [].
Cynghorir chi i rannu eich amser yn unol â hynny. 100 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael.

Atgoffir chi y bydd yr asesu'n cymryd ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig i ystyriaeth yn yr atebion
i gwestiwn 4 a chwestiwn 7.

ADRAN A

Atebwch bob cwestiwn.

1. Mae'r Rhyngwyneb Cyfrifiadur-Dyn yn rhan bwysig o system TGCh. Enwch **bedwar** ffactor y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddylunio rhyngwyneb defnyddiwr da. Esboniwch pam y mae **pob** ffactor yn bwysig. [8]
2. Mae siop anifeiliaid anwes yn dymuno cynnig gwasanaeth siopa ar-lein rhyngweithiol i'w chwsmeriaid.
 - (a) Heblaw am galedwedd, trafodwch **bedwar** o ofynion i'w hystyried wrth weithredu gwasanaeth siopa ar-lein rhyngweithiol o'r fath, gan roi digon o fanylion. [4]
 - (b)
 - (i) Rhowch **ddwy** o fanteision siopa ar-lein i'r *cwsmer*. [2]
 - (ii) Rhowch **ddwy** o fanteision siopa ar-lein i'r *busnes*. [2]
 - (iii) Disgrifiwch **ddwy** broblem bosibl a all godi wrth siopa ar-lein. [2]
3. (a) Heblaw am gost neu faterion diogelwch, esboniwch yn fanwl **ddau** ffactor a allai ddylanwadu ar gwmni wrth ddewis rhwydwaith cyfrifiadurol. [4]
(b) Dau fath o rwydwaith y gellid eu defnyddio yw *cymar wrth gymar* a *gweinydd/cleient*. Cymharwch a chyferbynnwch y **ddau** fath hyn o rwydwaith. [4]
4. Heblaw am drosedd, trafodwch yn fanwl **ddau** o'r materion moesol, cymdeithasol neu foesebol mawr sy'n gysylltiedig â'r *Rhyngryd*. Defnyddiwch enghreifftiau hollol wahanol ym **mhob** achos. [8]
5. Mae'r adran TG mewn coleg wedi penderfynu cyflwyno cod ymddygiad ar gyfer ei holl ddefnyddwyr TG. Trafodwch broblemau posibl a allai fod wedi arwain at y penderfyniad hwn ac awgrymwch ganllawiau addas y gellid eu cynnwys yn y cod ymddygiad er mwyn osgoi problemau o'r fath yn y dyfodol. [6]
6. Mae'r mwyafrif o systemau cyfrifiadurol modern bellach yn defnyddio cronfeydd data perthynol gyda Systemau Rheoli Cronfeydd Data.
 - (a) Cymharwch a chyferbynnwch y problemau sy'n codi gydag afreidrwydd data (*data redundancy*), cyfanrwydd data (*data integrity*) a chysondeb data mewn cronfeydd data ffeiliau fflat o'u cymharu â chronfeydd data perthynol. [6]
 - (b) Eglurwch yr hyn a olygir wrth System Rheoli Cronfeydd Data a chyferbynnwch ei manteision a'i hanfanteision. [6]
7. Cymharwch a chyferbynnwch y nodweddion/ffactorau sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng System Gwybodaeth Rheoli (*MIS*) dda a System Gwybodaeth Rheoli wael. [13]
8. Er gwaethaf profi trylwyr, weithiau mae angen i ddatblygwyr meddalwedd wneud gwaith cynnal a chadw ar systemau. Esboniwch pam y gall fod angen gwneud hyn ac amlinellwch rai o'r gwahanol fathau o gynnal a chadw y gellid eu gwneud. Cynhwyswch enghreifftiau addas i egluro eich ateb. [8]

9. Mae corff wedi cyflwyno systemau TGCh newydd. Mae'r systemau hyn wedi cael effaith fawr ar gyflogaeth.
- (a) Trafodwch **ddwy** broblem iechyd posibl a allai godi wrth gyflwyno'r systemau TGCh newydd hyn a disgrifiwch fesurau y gallai'r corff eu cymryd i'w hatal. [4]
 - (b) Disgrifiwch yr effaith y gallai'r systemau TGCh newydd hyn ei chael ar batrymau swyddi a gwaith. Defnyddiwch enghreifftiau hollol wahanol ym mhob achos i egluro eich ateb. [6]

ADRAN B

Atebwch naill ai cwestiwn 10 neu gwestiwn 11.

10. Mae gan y mwyafrif o gyrff bolisiau diogelwch TGCh bellach.
- (a) Trafodwch yn fanwl y bygythiadau posibl i ddata a chanlyniadau posibl dinistrio data yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Defnyddiwch enghreifftiau hollol wahanol **ym mhob achos** i egluro eich ateb. [8]
 - (b) Trafodwch **dri** dull y gellid eu defnyddio i atal dinistrio neu gamddefnyddio data yn fwriadol. [9]
11. (a) Mae ysbyty'n defnyddio system rheoli cronfeydd data perthynol i storio cofnodion cleifion. Mae staff a chleifion yn cael eu dyrannu i wardiau.
- (i) Esboniwch yr hyn a olygir wrth gronfa ddata berthynol. [2]
 - (ii) Gallai un tabl yn y gronfa ddata hon fod yn:
WARD (RhifWard, NiferGwelyau, RhifStaff).
RhifWard yw'r brif allwedd a RhifStaff yw'r allwedd estron.
Rhowch **ddau** dabl addas arall y gallech ddisgwyl eu gweld yn y gronfa ddata hon, ac enwch unrhyw brif allweddi neu allweddi estron. [5]
 - (iii) Esboniwch pam y mae'n fwy diogel i ysbytai ddefnyddio cronfeydd data perthynol i storio cofnodion cleifion yn hytrach na ffeiliau fflat. [2]
- (b) Mae ysbytai'n defnyddio cronfeydd data meddygol gwasgaredig. Disgrifiwch y problemau a allai godi wrth ddefnyddio cronfeydd data gwasgaredig o'r fath. [4]
 - (c) Mae'r Gwasanaeth Iechyd yn gwneud cryn ddefnydd o fideo-gynadledda bellach. Gan gyfeirio at enghreifftiau priodol, trafodwch **dri** defnydd o fideo-gynadledda yn y Gwasanaeth Iechyd. [4]

Uned IT1
Cynllun Marcio

Sylwer – Rhaid i enghreifftiau fod yn berthnasol i ennill marciau.

1. Data wedi’u prosesu neu ddata gyda chyd-destun yw gwybodaeth. 1
Mae gwybod yn cael ei ddeillio o wybodaeth trwy gymhwyso rheolau ato 1
Enghreifftiau priodol sy’n cwmpasu’r ddwy ran... 2
Er enghraifft, gallai *gwybodaeth* fod yn 1.03, 1.07, 1.15 munud, sef yr amserau mewn ras nofio. *Gwybod* fyddai’r ffaith mai 1.03 yw’r amser buddugol oherwydd y rheol mai’r person sy’n cwblhau’r ras yn yr amser cyflymaf sy’n ennill. [4]
2. (a) (Hyd at ddau farc am gostau a hyd at ddau farc am enghreifftiau) 1
Dwy gost arall, e.e.: amser 1
adnoddau dynol 1
Enghreifftiau priodol, e.e.: yr amser a gymerir 1
gofynion staff arbenigol 1
yr amser i ailhyfforddi
- (b) Tair enghraifft briodol (un marc am bob un) 1
(cyfoes) e.e. llythyrau a anfonir i bobl farw yn peri trallod 1
(cyflawn) e.e. bydd cyfeiriad heb god post ar lythyr yn peri oedi 1
archeb anghyflawn sy’n arwain at beidio ag anfon rhai eitemau
(manwl gywir) e.e. derbyn bil nwy neu drydan am filoedd o bunnoedd gan fod mesurydd wedi cael ei gam-ddarllen 1
os caiff y rhif ffôn anghywir ei gofnodi yn ystod sgwrs gall fod yn amhosibl cysylltu â’r person neu gwmni dan sylw [7]
3. (a) *Gwireddu* yw gwirio bod data wedi cael eu copïo o un cyfrwng i gyfrwng arall 1
Dim marc am y dull ond hyd at ddau am ddisgrifiad 2
e.e. darllen proflenni - darllen dogfen (1) i ddarganfod gwallau nad yw’r gwirydd sillafu wedi dod o hyd iddynt (1)
mewnbynnu ddwywaith - rhywun arall yn aildeipio symiau ar sieciau (1) a meddalwedd yn cymharu’r ddau swm cyn eu derbyn (1) neu gwsmeriaid yn teipio eu cyfrineiriau ddwywaith (1) wrth agor cyfrif / newid cyfrinair (1)
gwiriad gweledol - dangos data yr ydych wedi’u mewnbynnu (1) a gofyn a ydynt yn gywir (1)
- (b) *Dilysu* yw gwirio bod data yn rhesymol a synhwyrol 1
Dim marc am y dull ond hyd at ddau am ddisgrifiad 2
e.e. digid gwirio - ar y rhif cyfrif (1) i sicrhau ei fod yn ddilys (1)
gwiriad amrediad - ar y swm o arian y gellir ei drosglwyddo (1) neu ar y dyddiad y dylai’r trafod ddigwydd (1)
gwiriad presenoldeb - ar y meysydd angenrheidiol (1) er mwyn gwrthod data lle mae meysydd wedi cael eu gadael yn wag
gwiriad math - i wirio a yw data o fath arbennig (1), nad yw’n rhif pan ddisgwylir llinyn (1) [6]

4. (a) Hyd at ddau farc am bob swyddogaeth e.e.
- (i) *Mewnforio/allforio data* - Trosglwyddo data i ac o raglen arall (1) trwy gynhyrchu rhestr o gwsmeriaid sy'n prynu nwyddau moeth i'w gwerthu i gwmni arall (1)
 - (ii) *Ymholi* - chwilio'r gronfa ddata (1) i ddod o hyd i gwsmeriaid sy'n prynu cawsiau drud er mwyn eu targedu gydag eitemau moeth eraill (1)
 - (iii) *Adroddiad* - allbwn o'r system (1) megis yr holl bobl sy'n prynu cewynnau / clytiau yn amlach na dwywaith yr wythnos (1)

Sylwer – mae'r cwestiwn yn gofyn am 'gofnodion cwsmeriaid'. Os yw'r ymgeisydd wedi defnyddio'r cyd-destun 'stoc', caniatewch hyn y tro hwn ond y marc mwyaf yw pump allan o chwech.

- (b) Unrhyw ddwy adran berthnasol o'r Ddeddf, e.e. 2
Gorfod cofrestru'r ffaith eu bod yn cadw data
casglu'r data yn deg a chyfreithlon
cadw'r data yn ddiogel ac ati
casglu data sydd eu hangen at y pwrpas a nodwyd yn unig
sicrhau nad yw'r data'n cael eu defnyddio am unrhyw reswm heblaw am y pwrpas a nodwyd
sicrhau bod y data yn fanwl gywir a chyfoes
sicrhau bod y data yn ddiogel
peidio â chadw'r data am fwy o amser nag sydd ei angen
mae gan gwsmeriaid yr hawl i weld y data amdanynt sydd wedi cael eu storio
mae gan gwsmeriaid yr hawl i fynnu bod y data'n cael eu newid os ydynt yn anghywir [8]

5. Gall ymgeiswyr gynnwys y canlynol:

Mae'n haws rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr, yn enwedig os yw rhywun yn absennol
Gellir rhannu argraffydd o safon uchel i gynhyrchu adroddiadau mwy graenus
Gellir gosod y meddalwedd mewn un man yn unig
Mae'n haws gwneud copïau wrth gefn
Mae cadw a chynnal yn fwy effeithlon
Gellir canoli cymorth technegol

5-6 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio'n llawn a manwl ac yn esbonio o leiaf dri budd gwahanol. Defnyddiant dermau priodol a sillafu, atalnodi a gramadeg gywir.

3-4 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio rhai buddion ond nid yw eu hatebion yn hollol eglur. Ceir ychydig o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.

0-2 farc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru hyd at dri budd neu rhoddant esboniad byr o un neu ddau. Mae prinder eglurder yn yr ateb a cheir llawer o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.

Peidiwch â derbyn 'rhannu meddalwedd' ar ei ben ei hun.

[6]

6. (a) *3 marc ar y mwyaf*
- Cronfa wybodaeth - y rhan o system arbenigo sy'n cadw gwybodaeth am y parth (megis sgil effeithiau cyffuriau) 1
- Peiriant casgliadau - darn o feddalwedd mewn system arbenigo sy'n chwilio'r cronfa wybodaeth 1
- Rhyngwyneb defnyddiwr - mae'n cyfathrebu â'r system ac yn trosglwyddo ceisiadau am gyngor i'r peiriant casgliadau 1
(neu ddisgrifiadau cywerth) (1 marc yn unig am roi'r tri them)
- (b) *2 farc ar y mwyaf.* 2
- e.e.
- Gall staff meddygol ddadansoddi symptomau'n gyflymach (1) gan roi mwy o amser i feddygon ymdrin ag achosion difrifol (1), diagnosis cyflymach i gleifion (1)
- Gall meddygon gyrchu gwybodaeth fwy cyfoes/arbenigol (1) am afiechydon prin neu anghyffredin gan eu galluogi i wneud diagnosis manylach (1)
- Peidiwch â derbyn 'cyflymach', 'manylach' ar eu pennau eu hunain.* [5]

7. (a) Dim marc am enwi ffactorau. Dau o blith e.e.
- Lliw 2
- peidio â dewis coch a gwyrdd (dallineb lliw)
 - amrywiaeth o liwiau i'w wneud yn ddeniadol i'r defnyddiwr
 - i'w wneud yn hawdd ei ddysgu
- Lluniau / eiconau 2
- i helpu i wneud y dewisiadau cywir
 - i'w wneud yn hawdd ei ddysgu
- Cysondeb
- i'w wneud yn hawdd ei ddysgu
 - cyffelyb i becynnau eraill
- Taclusrwydd
- maint eiconau
 - cynllun
- Defnydd o destun
- maint ffont priodol
 - geiriau/ymadroddion priodol (defnydd o iaith)
- Dulliau mewnbynnu
- dyfeisiau priodol
- Sain
- i gadw diddordeb
 - i fodloni anghenion defnyddwyr arbenigol
- Sylwer - rhaid i'r pwyntiau fod yn hollol wahanol i ennill marciau.*
- (b) Dim marc am y mater. Hyd at ddau farc am enghraifft addas e.e. 2
- Anaf Straen Ailadroddus (*RSI*)/poen cefn - Gall eistedd am gyfnodau hir (1) wrth weithfan sydd wedi'i drefnu'n wael (1) arwain at broblemau gyda chyhyrau megis poen cefn neu *RSI*.
- Straen ar y llygaid/cur pen - Gall treulio gormod o amser yn edrych ar uned arddangos graffigol (*VDU*) (1) neu olau gwael o gwmpas y gweithfan (1) achosi straen llygaid neu gur pen.
- Ffitiau epileptig - Gall ffitiau epileptig gael eu cychwyn (1) gan y crynu neu fflicran a gynhyrchir gan gyfraddau adnewyddu araf rhai sgriniau *VDU* (1)
- Iechyd cyffredinol - Tystiolaeth bod y cynnydd mewn gordewdra mewn plant (1) yn ganlyniad i'r ffordd o fyw eisteddog a achosir gan gemau cyfrifiadur, y Rhyngrwyd ac ystafelloedd sgwrsio (1)

[6]

8. (a) (i) disgrifiadau o ddwy system TGCh briodol:
e.e.
DMG (OMR) - Mae'r athro yn marcio dalen DMG (1) sy'n cael ei rhoi i'r swyddfa a'i sganio i'r cyfrifiadur (1)
Teipio i mewn i gyfrifiadur/tabled - Mae'r athro yn defnyddio bysellfwrdd/ysgrifbin (stylws) (1) i gofnodi presenoldeb yn uniongyrchol ar feddalwedd gweinyddol/presenoldeb (1)
Cardiau llithro - Mae'r disgyblion/myfyrwyr yn llithro cerdyn (1) trwy ddarllen ydd cardiau ym mynedfa'r ysgol/coleg (1)
Olion bysedd - Mae'r disgybl/myfyriwr yn rhoi ei fys ar sganiwr olion bysedd (1) ac mae cofnod ar gyfrifiadur yn cael ei ddiweddarau (1)
Derbyniwch bob rheswm unwaith yn unig.

[4]

- (ii) Gall yr ymgeiswyr drafod amryw o'r canlynol:

mwy manwl (mae'n diweddarau'r rhestr os yw disgybl yn dod i'r ysgol yn hwyr),
mae'n haws cofrestru'n amlach (ym mhob gwrs),
nid oes angen anfon rhywun i lawr i'r swyddfa gyda chofrestr,
gellir cyrchu gwybodaeth mewn mwy nag un lle ar yr un pryd,
cynhyrchir adroddiadau'n awtomatig,
gwell ystadegau i'r uwch reolwyr,
gellir gweld os nad yw rhywun yn cymryd y gofrestr,
gellir gweld pryd y mae'r gofrestr yn cael ei chymryd,
haws eu diweddarau pan anfonir nodion i mewn,
yn mynd â llai o le storio,
yn haws archifo deunyddiau.
4 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio dwy neu dair mantais yn llawn a manwl.
2-3 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio un fantais neu fanylion sylfaenol dwy fantais.
0-1 marc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru manteision.

[4]

- (b) Gall yr ymgeiswyr drafod amryw o'r canlynol:

dyddiad geni i gyfrifo oedran
rhif arholiad sy'n unigryw i'r ymgeisydd
rhif cofrestr
gwybodaeth feddygol os oes problemau iechyd difrifol
perthynas agosaf os oes argyfwng ac ati.

7-10 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio'n llawn a manwl o leiaf bedwar maes gwahanol a pham y mae eu hangen. Defnyddiant dermau priodol a sillafu, atalnodi a gramadeg gywir.
4-6 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio rhai meysydd a pham y mae eu hangen ond mae prinder eglurder neu enghreifftiau perthnasol yn eu hatebion. Ceir ychydig o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.
0-3 marc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru pedwar neu bum maes neu'n rhoi esboniad byr o un neu ddau faes a pham y mae eu hangen. Mae prinder eglurder yn yr ateb a cheir llawer o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.

[10]

Adran B

9. Dau farc am fanteision, dau farc arall am ymhelaethu. 3 marc ar y mwyaf os rhoddir un fantais yn unig.
e.e.
Ailgyfrifo awtomatig (1) os yw data megis cyfraddau cyflog yn newid (1)
Gellir defnyddio 'beth os' (1) i fodelu gwahanol gostau rhannau ac ati (1)
Gellir llunio graffiau ar gyfer adroddiadau (1) i ddangos llif arian (1) neu i gymharu treuliau misol (1)
Bydd cyfrifiadau manwl gywir o gyflogau a biliau (1) yn cynyddu effeithlonrwydd/arbed amser (1)
- [4]
10. **OS NA CHYFLWYNIR TYSTIOLAETH TAENLEN YNA NI ELLIR RHOI UNRHYW FARCIAU. MAE'R LEFEL O ANHAWSTER YN CODI YMA OHERWYDD BOD YN RHAID I'R YMGEISWYR GAEL PROFIAD O WAITH TAENLEN LEFEL UCHEL.**
- (a) **4 marc ar y mwyaf**
Dim marc am enwi fformiwla, hyd at ddau farc am ddisgrifiad o'r hyn y mae'n ei wneud
e.e.
Mae fy fformiwla IF .. THEN .. ELSE yn gwirio a yw'r rhif yng nghell A23 yn fwy na'r rhif yng nghell A24 (1) Os ydyw mae'n dychwelyd y gwerth canol Profit, os nad ydyw mae'n dychwelyd y gwerth False (1)
Mae fy fformiwla VLOOKUP yng nghell B15 yn sganio rhesi yn yr amrediad a nodir am y gwerthoedd cymharu (1) ac yn dychwelyd y data o'r golofn fynegedig (1)
- [4]
- (b) Un marc am nodi dull, hyd at ddau farc am ddisgrifiad, hyd at ddau farc am fanteision, mwyafswm o bedwar marc
e.e.
Blychau rhestr (1): mae dewis testun o restr a bennwyd ymlaen llaw (1) yn lleihau gwallau mewnbynnu data (1) ac yn cynyddu effeithlonrwydd (1)
Blychau dewis neu flychau ticio (dewis Boole) (1): mae clicio yn y gell ar gyfer data ie/na (1) yn rhoi tic yn y gell (1) gan gynyddu effeithlonrwydd trwy arbed amser (1)
Sbinwyr (1): defnyddir botwm i weld sut y bydd newidiadau i'r mewnbyn (1) yn newid yr allbynnau mewn model (1) er mwyn i chi allu gweld gwahanol allbynnau'n haws (1)
- [4]
- (c) Un marc am enwi techneg ddilysu, hyd at dri marc am ddisgrifiad manwl
e.e.
Rhoddais wiriad amrediad (1) o rhwng 1 a 9999 (1) ar fy rhif archeb cwsmer (1) i sicrhau bod rhifau o fewn yr amrediad cywir (1)
Defnyddiais fformatio amodol (1) trwy roi fformiwla wedi'i rhagosod (1) e.e. i gyfrifo'r dyddiad (1) ar gyfer data mewn cell arall (1)
Gosodais hyd y testun (1) ar 10 nod i roi cyfyngiad (1) ar God Post cwsmer (1) i sicrhau na fyddai data anghywir yn cael eu mewnbynnu (1)
- [4]

- (ch) Dim marc am enwi proses wahanol ond hyd at ddau farc am ddisgrifiad manwl. Rhaid iddi fod yn facro a ddefnyddiwyd yn nhaenlen yr ymgeisydd. Gallai enghreifftiau ddod o: Trefnu, Chwilio, Macro, Cyfeirnod 3D, Graff, Adroddiad Allbwn (Anfoneb) / ffurflen mewnbynnu data (Ffurflen Archebu), Cod VB, ac ati.
e.e.
Diffiniodd fy macro y gosodiadau argraffu arbennig yn y blwch deialog Gosodiad Tudalen (1) ac argraffodd yr anfoneb (1)
Defnyddiais fformiwlâu cyfeirnod 3D i grynhoi data misol (1) ar y ddalen grynodedb flynyddol (1)

[4]

GRID ASESU**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu****(IT1)**

		Amcanion Asesu Marciau Crai (Gwirioneddol/Tybiannol)			Cyfanswm Marciau yn y Papur	Synoptig (✓)
		AA1	AA2			
UNED 1		56 % [UG]	4% [UG]	ACY (✓)		
	Cw1	4			4	
	Cw2	7			7	
	Cw3	6			6	
	Cw4	8			8	
	Cw5	6		✓	6	
	Cw6	5			5	
	Cw7	4	2		6	
	Cw8	15	3	✓	18	
	Cw9	4			4	
	Cw10	16			16	
	CYFANSWM (Marciau)	75	5		80	

Uned IT3
Cynllun Marcio

Cwestiwn	Ateb	Marc mwyaf
1.	<p>Unrhyw bedwar o'r canlynol, wedi'u trafod yn fanwl. Dim marc am enwi ffactor 4 × 2</p> <p>Maint ffont - darllenadwyaeth (1) yn briodol i'r defnyddiwr (1) i osgoi straen llygaid (1)</p> <p>Cysondeb arwyddbostio a gwybodaeth neidio i fyny - greddf (1)</p> <p>felly mae'r dysgwr yn dysgu'n gyflymach (1)</p> <p>Cymorth ar y sgrin - yn bwysig os nad yw cymorth ar gael wrth weithio (1)</p> <p>Dyluniad sy'n briodol i'r dasg - yn gyflymach i arbenigwr deipio (1) neu enghraifft o wahaniaethu rhwng arbenigedd defnyddwyr / cynulleidfaoedd arfaethedig (1)</p> <p>Strwythur llywio clir - yn osgoi gwastraffu amser (1) yn haws gweithio drwyddo (1)</p> <p>Lliw - glas/melyn yn gyfuniad da (gwyrdd/coch: problem dallineb lliw) (1) y gallu i addasu ar gyfer y cwsmer (1)</p>	8
2. (a)	<p>Unrhyw bedwar o'r canlynol, wedi'u trafod yn ddigon manwl: 4 × 1</p> <p>Cyflenwr Gwasanaeth Rhyngwrwd (<i>ISP</i>)</p> <p>Cynnal gwefan cwmni / yr angen am staff hyfforddedig</p> <p>Catalog o'r stoc, cronfa ddata stoc</p> <p>Dulliau talu diogel / troli siopa</p> <p>Cronfa ddata o archebion cwsmeriaid</p> <p><i>Os yw'r ymgeisydd yn nodi pedwar pwynt yn unig, yna 2 yw'r marc mwyaf.</i></p>	4
2. (b) (i)	<p>Manteision priodol, megis: 2 × 1</p> <p>mynediad 24 awr y dydd, mwy o ddewis, dim angen teithio, yn hwyluso siopa i bobl anabl, gwell prisiau</p>	2
2. (b) (ii)	<p>Manteision priodol, megis: 2 × 1</p> <p>yn rhatach gan nad oes angen talu trethi uchel, sylfaen gwsmeriaid ehangach, yn tynnu pwysau oddi ar staff, yn cynnig dewis ehangach o ganlyniad i 'mewn union bryd'</p>	2
2. (b) (iii)	<p>Unrhyw broblemau posibl, megis: 2 × 1</p> <p>cwsmer yn poeni am ddiogelwch, gall unrhyw un sefydlu gwasanaeth, nid yw siopa yn weithgaredd cymdeithasol bellach, twyll, toriadau trydan, costau cudd cludiant neu dreth fewnforio, costau ffôn, yr hyn a gewch yw nid yr hyn a welwch, anos dychwelyd nwyddau (os yw'r ddadl yn dda)</p> <p><i>Sylwer – mae'r cwestiwn yn dweud 'disgrifiwch' nid 'nodwch'.</i></p>	2

3. (a)	<p>Dim marciau am ffactorau ond hyd at ddau am esboniadau 2×2 manwl, megis:</p> <p>bydd maint y corff/cwmni (1) yn effeithio ar ffurfwedd y rhwydwaith (1) bydd sut y defnyddir y system (1) yn dylanwadu ar faint y rhwydwaith (1)</p> <p>bydd y perfformiad sydd ei angen (1) yn dylanwadu ar y dewis o weinydd (1)</p> <p>bydd y systemau presennol (1) yn haws eu hestyn gan fod y staff yn gyfarwydd â hwy (1)</p> <p>bydd ffurfwedd y rhwydwaith (1) yn dibynnu ar gynllun y safle (1) neu ar a oes angen RAL (<i>LAN</i>) neu RAE (<i>WAN</i>) (1)</p>	4
3. (b)	<p>Unrhyw bedwar pwynt perthnasol (1 marc yr un), ond rhaid cyfeirio at nodweddion y ddwy system i gael y pedwar marc:</p> <p>System gymar wrth gymar Costau gosod is Symlach i'w gosod a/neu ei chynnal Nid yw'n dibynnu ar un gweinydd Addas ar gyfer rhwydweithiau bach yn unig Nid yw data wedi'u storio'n ganolog Nid yw diogelwch a gwneud copïo wrth gefn wedi'u canoli</p> <p>System gweinydd/cleient Yn gyflymach na rhwydweithiau cymar wrth gymar fel rheol Diogelwch a gwneud copïo wrth gefn wedi'u canoli Data'n hygyrch i'r holl ddefnyddwyr Mae angen gweinydd felly mae'n fwy costus i'w gosod Gall fod angen rheolwr rhwydwaith i'w rhedeg yn effeithiol Os bydd y gweinydd canolog yn methu bydd y rhwydwaith cyfan yn methu</p>	4
4.	<p>Gallai'r ymgeiswyr gynnwys amryw o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sensoriaeth gan y llywodraeth • effeithiau ar gymunedau • preifatrwydd • perchenogaeth a rheolaeth / hawliau eiddo deallusol • llên-ladrad (prynu atebion arholiad) • diffyg rhyngweithio cymdeithasol • mynd yn gaeth i chwarae gemau • bwlïo electronig • gwefannau drwg / cynnwys amhriodol (hunanladdiad, hiliaeth, pornograffi) • manwl gywirdeb gwybodaeth. <p>6-8 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio'n llawn a manwl o leiaf dri mater, gan roi enghreifftiau priodol. Defnyddiant dermau priodol a sillafu, atalnodi a gramadeg gywir.</p> <p>3-5 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio amryw o faterion ond mae prinder eglurder neu enghreifftiau perthnasol yn eu hatebion. Ceir ychydig o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p> <p>0-2 marc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru hyd at dri mater neu'n</p>	8

	rhoi esboniad byr o un neu ddau fater. Mae prinder eglurder yn yr ateb a cheir llawer o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.	
--	---	--

<p>5.</p>	<p>Gallai'r ymgeiswyr drafod amryw o'r canlynol:</p> <p><i>Problemau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno firsau / eu disgiau eu hunain • Defnydd personol o gyfarpar neu'r Rhyngwyd • Pentyrru biliau ffôn • E-bost personol • Dosbarthu deunyddiau hiliol neu rywiol • Twyll • Cyfnewid hunaniaeth (dwyn neu roi) • E-byst sarhaus • Rhwydwaith yn arafu • Chwarae gemau • Defnydd anghyfreithlon o feddalwedd <p><i>Canllawiau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifoldebau • Parchu hawliau pobl eraill • Rhybudd am fonitro • Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol • Gwarchod caledwedd a meddalwedd rhag difrod maleisus • Cydymffurfio â'r cytundebau trwyddedu • Awdurdodi • Caniatâd i gyrchu data • Rheolau sy'n diffinio diogelwch • Rheolau am ddefnydd personol <p>4-6 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio'n llawn a manwl o leiaf dair problem, ac yn awgrymu canllawiau addas.</p> <p>2-3 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio un neu ddwy o broblemau ac yn awgrymu canllawiau.</p> <p>0-1 marc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru problemau neu'n awgrymu un neu ddau o ganllawiau.</p>	<p>6</p>
<p>6. (a)</p>	<p><i>Afreidrwydd data</i></p> <p>Mae hwn yn gysyniad pwysig wrth ddylunio cronfeydd data. Mae'n cyfeirio at ddyblygu data yn ddiangen. Mewn cronfa ddata ffeiliau fflat bydd gwybodaeth megis manylion cwsmeriaid yn cael ei dyblygu. Mewn cronfa ddata berthynol a ddyluniwyd yn dda, ni ddylai fod unrhyw 'ailadrodd priodoledau', ni ddylai unrhyw ddarn o ddata gael ei ailadrodd yn ddiangen.</p> <p><i>Cyfanrwydd data</i></p> <p>Cyfanrwydd data yw cywirdeb y data, h.y. i ba raddau y mae'n cynrychioli'n gywir y wybodaeth wreiddiol. Mae un o broblemau sicrhau cyfanrwydd yn codi wrth ddiweddarau data. Rhaid newid pob cofnod mewn cronfa ddata ffeiliau fflat: pe byddid yn methu â newid un cofnod, ni fyddai'r data yn hollol gywir bellach. Mewn cronfa ddata berthynol, y cyfan sydd angen ei wneud yw newid y data mewn un tabl a bydd yr holl gyfeiriadau mewn unrhyw dablau eraill yn cael eu newid yn awtomatig.</p>	<p>6</p>

	<p><i>Cysondeb data</i></p> <p>Pan ddelir data mewn mwy nag un ffeil dylent gael eu storio mewn ffordd gyson. Gallai maes dyddiad gael ei storio mewn un ffeil fel maes testun ond mewn ffeil arall fel maes amser/dyddiad a byddai'r data yn anghydnaws. Mewn cronfa ddata berthynol, gan fod priodoleddau unrhyw endid wedi'u cynnwys o fewn un ffeil, nid oes unrhyw berygl y bydd yr un briodoledd yn cael ei storio mewn fformat gwahanol mewn ffeil wahanol.</p>	
6. (b)	<p>Dull o reoli'r rhyngwyneb rhwng y data a storir gan gorff a'r rhaglen a ddefnyddir ganddo i gyrchu'r data yw System Rheoli Cronfeydd Data. Yn nodweddiadol, bydd corff yn storio ei ddata mewn cyfres o ffeiliau data cysylltiedig, e.e. cronfa ddata berthynol.</p> <p><i>Manteision</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy o safoni data o fewn y corff. Rhaid i ddefnyddwyr ddefnyddio'r un diffiniadau data a gweithio o fewn cyfyngiadau'r geiriadur data. • Mae diogelwch yn well oherwydd bod y gronfa ddata wedi'i lleoli'n ganolog ac y gellir rheoli mynediad iddi. • Mae'r data yn annibynnol ar y rhaglenni sy'n rhyngweithio â hwy. Mae hyn yn golygu y gall datblygwyr greu rhaglenni newydd heb orfod poeni am greu neu newid y strwythurau data gwaelodol. • Mae'n gwneud defnydd darbodus o adnoddau trefniadaethol. Rhaid storio'r data unwaith yn unig. Yna gellir eu cyrchu gan wahanol adrannau swyddogaethol y corff. Mae hyn yn arwain at arbedion o ran gofynion caledwedd a chof. <p><i>Anfanteision</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd creu a chynnal System Rheoli Cronfeydd Data fawr yn gostus. Mae'n debyg y bydd angen caledwedd drud, adnoddau cof sylweddol a dyfeisiau prosesu manyleb-uchel. Gall fod yn ddud i gael yr arbenigedd staff angenrheidiol hefyd. • Rhaid i drefniadau diogelwch fod yn fanwl a helaeth os yw holl adnoddau data y corff wedi'u lleoli'n ganolog. Mae'r corff yn fwy agored i golledion data trychinebus ac felly bydd angen polisi adfer rhag trychineb cadarn iawn. • Cynhyrchion cymhleth yw Systemau Rheoli Cronfeydd Data. Wrth ddatblygu rhaglenni cysylltiedig, bydd angen i ddatblygwyr ddeall yn llwyr sut y maent hwy'n gweithio. Bydd yr hyfforddiant ac amser ychwanegol ar gyfer hyn yn ychwanegu at y costau datblygu. 	6

7.	<p>Casgliadau trefnedig o bobl, dulliau gweithredu ac adnoddau sy'n cefnogi penderfyniadau rheolwyr yw Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS).</p> <p><i>Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol:</i></p> <p><i>Nodweddion System Gwybodaeth Rheoli dda</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cywirdeb y data • Hyblygrwydd prosesau dadansoddi data • Darparu data ar ffurf briodol • Yn hygyrch i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr ac yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth • Yn gwella cyfathrebu rhyngbersonol ymhlith rheolwyr a gweithwyr • Yn caniatáu ar gyfer cynllunio projectau unigol • Yn osgoi darparu gormod o wybodaeth <p><i>Ffactorau a all arwain at System Gwybodaeth Rheoli wael</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymhlethdod y system • Dadansoddi cychwynnol annigonol • Nid yw'r rheolwyr yn ymwneud digon â llunio'r system ar y dechrau • Caledwedd a meddalwedd amhriodol • Diffyg gwybodaeth ymhlith rheolwyr am systemau cyfrifiadurol a'r hyn y gallant ei wneud • Cyfathrebu gwael rhwng staff proffesiynol • Diffyg safonau proffesiynol <p>10-13 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n cymharu ac yn cyferbynnu'n llawn a manwl o leiaf bedair nodwedd/ffactor, gan roi enghreifftiau perthnasol. Defnyddiant dermau priodol a sillafu, atalnodi a gramadeg gywir.</p> <p>5-9 marc Mae'r ymgeiswyr yn cymharu ac yn cyferbynnu amryw o nodweddion/ffactorau, ond mae prinder eglurder neu enghreifftiau perthnasol yn eu hatebion. Ceir ychydig o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p> <p>0-4 marc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru pedair neu bum nodwedd neu'n rhoi esboniad byr o un neu ddwy nodwedd/ffactor. Mae prinder eglurder yn yr ateb a cheir llawer o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	13
----	--	----

<p>8.</p>	<p><i>Un marc am bob pwynt hyd at uchafswm o 8 marc.</i> <i>Chwe marc ar y mwyaf os na roddir enghreifftiau</i> e.e. Namau (1) na chawsant eu darganfod yn ystod y broses brofi (1) ond sydd wedi dod i'r amlwg wrth i'r system weithredu mewn amgylchedd byw (1) Mae'n bosibl y bydd y defnyddwyr, ar ôl cyfnod o amser (1) yn darganfod bod agwedd neilltuol ar y meddalwedd yn anfoddhaol (1) e.e. gall fod yn anodd fformatio tablau ar gyfer eu hargraffu (1) Newidiadau yn yr amgylchedd busnes (1) e.e. gall newid mewn deddfwriaeth (1) olygu bod gofyn i'r meddalwedd gyflawni tasgau na chafodd ei ddylunio ar eu cyfer yn wreiddiol (1) Gall bygythiad diogelwch (1) e.e. firws (1) godi sy'n golygu bod angen cyflwyno lefel ychwanegol o amddiffyniad (1) Gall y darparwr meddalwedd ddarganfod ffordd o wneud i'r rhaglen redeg yn fwy effeithlon (1) e.e. ffenestri golygu arnawf (1) Gall meddalwedd neu galedwedd newydd gael ei brynu (1) a gall fod angen newid y systemau presennol i'w integreiddio (1) e.e. prynu argraffyddion newydd â gyrwyr anghydnaws (1)</p>	<p>8</p>
------------------	--	-----------------

<p>9. (a)</p>	<p><i>Gallai'r ymgeiswyr gynnwys rhai o'r problemau canlynol:</i></p> <p><i>Problem</i> Anaf straen ailadroddus (RSI) o ganlyniad i weithio wrth gyfrifiaduron neu chwarae gemau cyfrifiadur am amser maith Straen llygaid neu ffitiau epileptig Poen cefn Cosi wedi'i achosi gan yr oson o argraffyddion laser Pelydriad yn effeithio ar embryoau ac yn arwain at erthyliad naturiol Wi-fi</p> <p><i>Atal</i> Bysellfyrdau ergonomig / dyfeisiau i gynnal yr arddyrnau a'r traed / safle cywir y gadair / cadeiriau cymwysadwy Sgriniau nad ydynt yn crynu / hidlyddion sgrin i atal llacharedd / goleuo cywir yn yr ystafell / sgriniau sy'n gogwyddo Cymryd seibiant bob 15 munud / cerdded o gwmpas yr ystafell Gosod argraffydd laser personol un metr i ffwrdd o'r defnyddiwr Peidio â switsio dyfeisiau ymlaen nes bod eu hangen</p> <p>4 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio'n llawn a manwl ddwy broblem, ac yn awgrymu mesurau atal addas. 2-3 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio un neu ddwy o broblemau a mesurau atal. 0-1 marc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru problemau neu'n awgrymu un neu ddau o fesurau atal.</p>	<p>4</p>
<p>9. (b)</p>	<p><i>Un marc am bob pwynt hyd at uchafswm o 6 marc.</i> <i>Pedwar marc ar y mwyaf os na roddir enghreifftiau</i> e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teleweithio - mae gweithio o'r cartref gan ddefnyddio rhwydweithiau cyfrifiadurol (1) yn arbed costau cludiant / amgylcheddol (1) • Fideogynadleda - mae'n caniatáu cyfarfodydd pell (1) ac yn arbed amser teithio (1) y gellir ei ddefnyddio'n fwy cynhyrchiol (1) • Colli swyddi - collir swyddi llaw anfedrus (1) megis clercod ffeilio (1) • Canolfannau galw - maent wedi arwain at golli llawer o swyddi (1) e.e. clercod banc (1) sydd wedi cael eu hallforio i wledydd tramor lle y mae llafur yn rhatach (1) gan arwain at 'siopau chwys' TGCh (1) • Ailhyfforddi - mae angen dysgu sgiliau newydd (1) i ddefnyddio cronfeydd data / taenlenni / e-bost / rhaglennu ac ati (1) e.e. mae clercod cyflogau bellach yn defnyddio meddalwedd arbenigol (1) • Swyddi newydd – mae angen dadansoddwyr systemau, rhaglenwyr (1) i ysgrifennu rhaglenni neu i deilwra Systemau Rheoli Cronfeydd Data ar gyfer defnyddwyr (1) 	<p>6</p>

<p>10. (a)</p>	<p><i>Mae'r ymgeiswyr yn cynnwys rhai o'r bygythiadau a chanlyniadau canlynol:</i></p> <p><i>Bygythiadau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Terfysgaeth • Trychinebau naturiol • Difrod bwriadol • Tân • Lladrad • Hyfforddiant gwael (<i>derbyn yn yr achos hwn</i>) <p><i>Canlyniadau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Colli busnes ac incwm • Colli enw da • Achos cyfreithiol • (<i>Nid colli data yn unig</i>) <p>6-8 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio'n llawn a manwl o leiaf dri bygythiad a chanlyniad, gan roi gwahanol enghreifftiau i'w hegluro.</p> <p>3-5 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio un neu ddau o fygythiadau a chanlyniadau ond mae prinder eglurder neu enghreifftiau perthnasol yn eu hatebion.</p> <p>0-2 farc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru bygythiadau a chanlyniadau neu'n awgrymu un neu ddau o ganllawiau ac efallai nad ydynt yn rhoi enghreifftiau.</p> <p><i>Sylwer – ni roddir marc am 'gwneud copïau wrth gefn' yn unig.</i></p>	<p>8</p>
<p>10. (b)</p>	<p><i>Gallai'r ymgeiswyr drafod rhai o'r dulliau atal canlynol:</i></p> <p>Dulliau o reoli mynediad i ystafelloedd cyfrifiaduron Dulliau o sicrhau diogelwch data a drawsyrrir e.e. amgryptio Dulliau sy'n cynnwys defnyddio allweddi preifat a chyhoeddus Trefniadau galw'n ôl ar gyfer mynediad pell Sefydlu muriau gwarchod Defnyddio sganwyr firsau Gweinyddion dirprwyol Dulliau o ddiffinio statws diogelwch defnyddwyr a'u hawliau mynediad Dulliau corfforol o ddiogelu caledwedd a meddalwedd Diogelwch systemau ffeilio dogfennau.</p> <p>6-9 marc Mae'r ymgeiswyr yn rhoi ateb clir a threfnus sy'n disgrifio ac yn esbonio'n llawn a manwl o leiaf bum mesur atal.</p> <p>3-5 marc Mae'r ymgeiswyr yn esbonio tri neu bedwar mesur atal ond mae prinder eglurder yn eu hatebion.</p> <p>0-2 farc Nid yw'r ymgeiswyr ond yn rhestru un neu ddau o fesurau atal.</p> <p><i>Sylwer – ni roddir marc am 'gwneud copïau wrth gefn' yn unig.</i></p>	<p>9</p>

11. (a) (i)	<p><i>Diffiniad addas o gronfa ddata berthynol, megis</i> 2</p> <p>Casgliad mawr o eitemau data a chysylltau rhyngddynt (1) wedi'i strwythuro yn y fath fodd ag i ganiatáu iddo gael ei gyrchu gan nifer o wahanol raglenni cymwysiadau (1).</p>	2
11. (a) (ii)	<p><i>Rhowch un marc am bob enw ar gyfer tabl a phob maes allweddol, un marc am y ddwy allwedd estron, ac un marc am ddau faes perthnasol arall ym mhob tabl</i></p> <p><i>e.e. Byddai</i></p> <p>STAFF, (<u>Rhif staff</u>, Enw, rhif cysylltu, <i>Rhif ward</i>)</p> <p>CLAF, (<u>Rhif claf</u>, Enw, afiechyd, <i>Rhif ward</i>)</p> <p><i>yn cael marciau llawn.</i></p>	5
11. (a) (iii)	<p><i>Unrhyw ddau reswm perthnasol</i> 2 x 1</p> <p>e.e.</p> <p>Hierarchaeth cyfrineiriau Storio data ar wahân i raglenni Hawliau mynediad i rannau o'r rhaglen</p>	2
11. (b)	<p><i>Hyd at ddau farc am ddwy broblem:</i> 2 x 2</p> <p>e.e.</p> <p>Maent yn fwy cymhleth (1) ac felly'n ddrutach i'w gosod a'u cynnal (1)</p> <p>Mae'r perygl diogelwch yn fwy (1) wrth drosglwyddo ffeiliau (1)</p> <p>Os bydd un lleoliad yn methu gall effeithio ar eraill (1) ac mae'n bosibl na fydd staff yn gallu cyrchu data allweddol (1)</p> <p>Gallai data fod yn anghyson (1) oherwydd y gall nifer mawr o bobl gyrchu'r ffeiliau (1)</p>	4
11. (c)	<p><i>Unrhyw ddau ddefnydd rhesymol, wedi'u trafod yn briodol o fanwl, megis:</i> 2 x 2</p> <p>e.e.</p> <p>Gellir cynnal cyfarfodydd rhanbarthol heb i'r staff orfod gadael yr ysbyty (1) ac felly gellir gwneud mwy o waith gan na chollir amser teithio (1)</p> <p>Gellir ymgynghori ag arbenigwr o bell (1), enghraifft addas e.e. cyfeirio afiechydon y croen at arbenigwyr (1)</p>	4

GRID ASESU

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

(IT3)

UNED 1		Amcanion Aseu Marciau Crai (Gwirioneddol/Tybiannol)			Cyfanswm Marciau yn y Papur	Synoptig (✓)
		AA1	AA2	ACY		
		22 % [SU]	8% [SU]			
	Cw1		8		8	✓
	Cw2	10			10	✓
	Cw3	4	4		8	
	Cw4	8		✓	8	✓
	Cw5	6			6	
	Cw6	6	6		12	✓
	Cw7	13		✓	13	
	Cw8	2	6		8	
	Cw9	10			10	✓
	Cw10 (dewis)	17			17	✓
	Cw11 (dewis)	17			17	✓
	CYFANSWM (Marciau)	71	24		100	